



CYNGOR • TREF
LLANDUDNO
TOWN • COUNCIL

Neuadd y Dref • Lloyd Street • Llandudno • Gogledd Cymru • LL30 2UP
Town Hall • Lloyd Street • Llandudno • North Wales • LL30 2UP

☎ (01492) 879130 • 📠 (01492) 879130

🌐 www.llandudno.gov.uk • epost/email: towncouncil@llandudno.gov.uk

Fel Maer Llandudno, ar ran Cyngor Tref Llandudno, hoffwn estyn diolch o galon i aelodau'r GIG sy'n gweithio'n ddiflino yn ystod y cyfnod dychrynlyd yma, i gynnig gwasanaethau achub bywyd hanfodol i'r rheiny sydd wedi eu heffeithio gan y Coronafeirws.

Mae dewrder, cryfder a phenderfynoldeb y rheiny ar y rheng flaen yn ystod yr argyfwng hwn yn anhygoel. Mae eu gweithrediadau arwrol wrth wynebu trallod o'r fath yn gredyd iddyn nhw eu hunain a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol cyfan.

Mae'n galonogol gweld y cyhoedd yn dangos gymaint o gefnogaeth yn ddyddiol tuag at waith y rheiny sydd wrthi'n ddiwyd, nid yma yng Ngogledd Cymru'n unig ond ledled y wlad. Rydym yn lwcus dros ben o fedru manteisio ar y gwasanaeth iechyd gorau yn y byd.

Hoffem ddiolch hefyd i bawb sy'n cynnig gwasanaeth hanfodol yn ystod y cyfnod hwn. Ymysg y rheiny mae'r holl wasanaethau goleuadau glas a'r siopau sy'n gofalu fod digon o gyflenwadau ar gael bob amser. Yn ogystal â'r cwmnïau gwasanaethau cyhoeddus a'r doreth o wirfoddolwyr sydd wedi cymryd yr awenau a'n helpu i ddygymod yn ystod yr adeg ofnadwy hon yn ein hanes. I bawb sy'n gwneud eu rhan, hoffem ddweud 'Diolch yn Fawr' iddyn nhw.

Hyd yn hyn, dydyn ni ddim yn sicr pryd ddaw'r argyfwng hwn i ben. Ond pan fydd hynny'n digwydd, fe fydd yn rhaid inni barhau i gydweithio er mwyn gofalu bod ein tref fendigedig yn dychwelyd yn ôl i'r arfer. Y nod ydy ein bod ni'n medru ail-agor yr holl siopau, gwestai a busnesau a lleadau'r neges ein bod ni unwaith eto 'Ar agor' fel man gwyliau i dwristiaid.

Waeth beth ydy'r trafferthion ddaw ynghlwm â'r argyfwng hwn, fe wnawn ni eu goresgyn a rhagori'n gryfach fel cymuned, tref a gwlad.

Fel ffordd o ddangos ein gwerthfawrogiad a chefnogaeth tuag at y GIG, fe fydd y Cyngor Tref yn codi baneri ar y promenâd mewn parch tuag at y gwaith anhygoel gaiff ei gyflawni ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn newid y goleuadau i rai glas mewn sawl lleoliad yn y dref.

Fel Maer, anfonaf fy nymuniadau gorau oll a gofynnaf ichi barhau i gydymffurfio gyda neges y Llywodraeth i 'Aros Adref, Gwarchod y GIG, ac Achub Bywydau'.

Bendith Duw arnoch chi i gyd.

Y Cyng. Angela O'Grady
Maer Llandudno

Tessa Wildermoth, MSc
Clerc a Swyddog Cyllid • Town Clerk & Financial Officer